CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 27 GORFFENNAF 2022 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) a J. Simmonds (Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn Bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, y Gymuned a Gwasanaethau Hamdden), M. James (Rheolwr Ystadau Dros Dro) ac E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i'w wylio.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. CABINET – 13 GORFFENNAF 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn rhestru'r adroddiadau sydd i'w cyhoeddi hyd at 21 Medi 2022.

Atgoffwyd Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithredol ac, felly, y gallai newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy godi llaw.

5. STRATEGAETH UCHELGEISIAU A RENNIR 2019-2022

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet am ganlyniad y cynnydd ers yr Adolygiad gan Gymheiriaid yn 2018. Nodwyd bod yr adolygiad gwreiddiol gan gymheiriaid wedi'i arwain gan Aled Evans, ynghyd â thîm a oedd yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Addysg, un Cyfarwyddwr Cynorthwyol a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Amlygodd yr adolygiad y blaenoriaethau yn y 'Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir' drafft. Comisiynwyd Mr Evans eto i gynnal adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers Ionawr 2019 a gwnaed hyn rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022.

Cyfeiriwyd y Cabinet at y Crynodeb Gweithredol ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad a nododd fod y broses wedi cynnwys adolygiad o ddogfennau a chyfweliadau â rhanddeiliaid. Roedd canfyddiadau'r adolygiad wedi'u rhannu â Phenaethiaid, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Estyn, a byddai'r camau gweithredu a ddeilliai o'r trafodaethau hyn yn cael eu defnyddio i lywio cynlluniau strategol yn y dyfodol.

Wrth i'r Awdurdod Lleol baratoi ar gyfer strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Medi 2022, teimlwyd ei bod hi'n bwysig cipio'r dysgu o'r 3 blynedd diwethaf a myfyrio ar y blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer y cynllun strategol nesaf.

Croesawodd Aelodau'r adolygiad a'r cydnabyddiaethau ynddo a wnaeth gymeradwyo bod 'ymrwymiad clir yn wleidyddol ac yn gorfforaethol i gynnal lles dysgwyr a staff, i sicrhau bod pob lleoliad yn datblygu amgylchedd dysgu sy'n ysbrydoledig ac yn uchelgeisiol i bob disgybl neu fyfyriwr unigol, sy'n gynhwysol ac sy'n cynorthwyo anghenion holistig pob dysgwr'.

Hefyd, nodwyd bod yr adolygiad wedi dod i'r casgliad bod 'Gwasanaethau Addysg Caerffili mewn dwylo diogel' ac nad casgliad yr adolygydd oedd hwn, ond fe'i mynegwyd yn onest ac yn gyson iawn gan yr holl randdeiliaid y cawsant eu cyfweld.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol ei ddiolch ar gofnod i'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd am eu cymorth a myfyriodd ar ymrwymiad pawb a weithiodd mor ddiflino trwy gydol y pandemig i gynnal dysgu a chynorthwyo anghenion pob dysgwr ac aelod staff. Rhoddodd wybod i'r Cabinet am y camau nesaf a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y strategaeth nesaf, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Medi, gyda drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Nhymor yr Hydref i barhau â'r gwaith da a ddisgrifir yn yr adolygiad.

Gosododd y Cabinet ar gofnod bawb a oedd wedi gweithio mor galed ar y strategaeth, a wnaeth gyfrannu at y broses adolygu ac a fu mor ymroddedig trwy gydol y pandemig.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidleisio electronig.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, bod y ddogfen atodedig (Atodiad 1) yn cael ei hadolygu a bod y wybodaeth ynddi'n cael ei thrafod, ei herio a'i chraffu.

6. ADRODDIAD ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2022-27

Ystyriwyd yr adroddiad, a geisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027 i Lywodraeth Cymru.

Nododd y Cabinet fod Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2000 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn paratoi asesiadau o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal a'u bod yn adolygu'r rhain yn barhaus. Nodwyd bod data wedi'i gasglu dros Haf a Hydref 2021 a'i ddadansoddi i ysgrifennu'r asesiad. Roedd adroddiad yr asesiad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 28 diwrnod ac mae'n ofynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Medi 2022.

Cyfeiriwyd at adran 2.8 yr adroddiad a'r angen am fwy o weithlu a cheisiwyd eglurhad ynghylch unrhyw anawsterau arwyddocaol o ran recriwtio i'r swyddi hyn a pha hyfforddiant a oedd ar gael. Cadarnhaodd swyddogion fod y sector gofal plant, fel meysydd eraill ers y pandemig, yn cael trafferth recriwtio a chadw staff. Nododd y Cabinet mai'r 2 fater â'r effaith fwyaf oedd graddfeydd cyflog o gymharu â lefel y cyfrifoldeb ar gyfer y rôl. Cadarnhaodd y Swyddog fod y darparwyr preifat yn y sector gofal plant yn debygol o dalu'r isafswm cyflog ac, oherwydd bod pob sector yn recriwtio, roedd yn farchnad swyddi gystadleuol iawn, gyda dewis o rolau a oedd yn aml yn talu'n well, gyda llai o gyfrifoldeb.

Cadarnhaodd y Swyddog fod llawer o gyllid yn cael ei gyfeirio at hyfforddiant gofal plant a bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar gyfleoedd hyfforddi. Roedd buddsoddi mewn cynlluniau prentisiaeth a ffeiriau gyrfaoedd yn cael eu defnyddio i amlygu gofal plant fel llwybr gyrfaol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy bleidlais electronig.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo cyflwyno Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027 i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

7. ADEILADU ARFAETHEDIG PAFILIWN CADETIAID A CHWARAEON AMLDDEFNYDD YM MHARC MORGAN JONES, CAERFFILI

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio barn y Cabinet am brosiect ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i adeiladu pafiliwn cadetiaid a chwaraeon amlddefnydd ym Mharc Morgan Jones, Caerffili, a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet am gyfraniad cyllid cyfalaf o £258,000 i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r fenter ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Nododd y Cabinet fod sgwadron Cadetiaid Awyr RAF Caerffili wedi'u lleoli mewn adeilad o fewn ffiniau parc Morgan Jones, dan brydles gan y Cyngor, sydd i gael ei adnewyddu. Fodd bynnag, roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cysylltu â'r Cyngor ynghylch opsiynau ar gyfer y safle hwn gan nad yw'r adeilad presennol yn addas i'r diben mwyach. Yn yr un modd, mae

caban Cadetiaid y Fyddin wedi'i leoli mewn plot yr un mor fach, mewn safle gwael ac mewn cyflwr gwael hefyd. O ystyried y costau a fyddai'n gysylltiedig â chodi dau gaban newydd yn eu lle, byddai darparu cyfleuster newydd mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn creu adnodd sy'n diwallu anghenion y Cyngor a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Byddai'r cyfleuster newydd yn cynnig defnydd ehangach i'r gymuned yn ogystal â chreu Pafiliwn Bowls a Neuadd newydd i Gadetiaid y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol.

Cyfeiriodd Aelodau at adran ymgynghori'r adroddiad ac nad oedd cyfeiriad penodol at sylwadau'r Clwb Bowls yn yr adran hon.

Cafodd y Cabinet sicrwydd yr ymgynghorwyd ag Aelodau'r Ward Lleol a'r Clwb Bowls ar y cynigion ac roedden nhw'n gefnogol o'r prosiect, er na nodwyd hynny'n benodol.

Croesawodd y Cabinet y cynnig a mynegodd pa mor dda yr oedd gweld menter gydweithredol fel hon yn dod i'r amlwg, nid yn unig am resymau cynaliadwyedd ond hefyd am y cyfleoedd y byddai'n eu cynnig at ddefnydd ehangach y gymuned.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1) Bod y prosiect ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddarparu Pafiliwn Cadetiaid a Chwaraeon Amlddefnydd ym Mharc Morgan Jones, Caerffili, yn cael ei gymeradwyo.

2) Bod cyfraniad cyllid cyfalaf o £258,000, gan gynnwys TAW (sef cyfraniad y Cyngor) i gynorthwyo â darparu'r fenter hon ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael ei gymeradwyo.

3) Bod £258,000 yn cael ei neilltuo o'r Gronfa Cyfalaf Corfforaethol Wrth Gefn, os na ellir sicrhau cyllid allanol.

4) Bod swyddogion yn cael yr awdurdod i drafod telerau rheoli'r cyfleuster gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn o ran sut bydd yr adeilad yn cael ei weithredu a'i reoli wrth symud ymlaen, a'r manylion ehangach, fel rhent a chostau cyfleustodau.

8. CYNNYDD YCHWANEGOL MEWN FFIOEDD I DDARPARWYR CARTREFI PRESWYL BACH AR GYFER 2022/23

Ystyriwyd yr adroddiad a geisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i gynyddu'r codiad o 5%, y cytunwyd arno mewn ffioedd ar gyfer 2022/23, i 10% ar gyfer darparwyr gwasanaethau cartrefi preswyl bach ym Mwrdeistref Caerffili.

Nododd y Cabinet y teimlwyd y byddai 5% o gynnydd yn eu ffioedd yn ddigon adeg y dyfarniad ond, ers dyfarnu, roedd darparwyr y gwasanaethau hyn wedi cyflwyno sylwadau nad oedd y cynnydd o 5% yn ddigon i fynd i'r afael â'r cynnydd yr oedd y sector gofal cymdeithasol yn ei wynebu mewn costau nac i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn sicrhau sefydlogrwydd y sector gofal hwn a sicrhau bod cymorth i drigolion agored i niwed yn cael ei gynnal, yn ogystal â helpu i gadw'r staff angenrheidiol yn y sector.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad i'r Cabinet ar natur fregus y sector darparwyr cartrefi gofal llai ac esboniodd y byddai'r 5% ychwanegol yn rhoi sefydlogrwydd i'r sector hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Heb yr

help ychwanegol hwn, ni fyddai llawer ohonyn nhw'n gallu parhau i weithredu a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar fywyd oedolion agored i niwed a phlant.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1) Cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu darparwyr cartrefi preswyl bach ar hyn o bryd a bod cynnydd o 10% mewn ffioedd yn hytrach na 5%, a hynny mewn grym o Ebrill 2022 ymlaen, yn cael ei gymeradwyo.

2) Bod £310,000 ychwanegol yn cael ei neilltuo o'r cyllid twf gofal cymdeithasol o fewn cyllideb y Cyllid Corfforaethol i ariannu effaith y codiad ychwanegol mewn ffioedd.

9. GOFAL PRESWYL A GOMISIYNIR YN ALLANOL.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried yn eitem frys ac, felly, na fyddai'n cael ei alw i mewn.

Ystyriwyd yr adroddiad a geisiodd gytundeb y Cyngor i ddarparu cymorth cyllid ychwanegol am amser cyfyngedig i ddarparwyr y farchnad gofal cartref a gomisiynir yn allanol, oherwydd y pwysau recriwtio a chadw y maen nhw'n eu hwynebu yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw ac, yn arbennig, effaith bresennol y cynnydd mewn prisiau tanwydd.

Diweddarwyd y Cabinet am yr argyfwng presennol yn y sector gofal cymdeithasol o ran gallu'r awdurdod i gomisiynu gofal cartref gan y sector annibynnol. Amlinellodd yr adroddiad gynnig rhanbarthol i geisio sefydlogi'r sector dros y chwe mis nesaf i helpu recriwtio a chadw staff gofal. Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y pwysau cenedlaethol sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal yn cael eu hailadrodd ar draws ôl troed Gwent ac, ar draws y rhanbarth, roedd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion ac Arweinwyr Comisiynu wedi bod yn gweithio'n rhagweithiol i ystyried nifer o opsiynau uniongyrchol a thymor hwy, nid yn unig i gynnal a dal gafael ar y gweithlu presennol, ond hefyd i annog gofalwyr newydd i ymuno â'r proffesiwn.

Nodwyd dros yr wythnosau diwethaf fod darparwyr wedi rhoi gwybod unwaith eto fod staff yn gadael y sector oherwydd y cynnydd yng nghost defnyddio'u cerbydau ar gyfer gwaith, gan adael y farchnad gofal cartref mewn sefyllfa fregus. Heb ddigon o ofal cartref ar gael a heb farchnad ofal gynaliadwy, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu cynorthwyo ei drigolion mwyaf agored i niwed a, hefyd, ni fyddai'n gallu comisiynu pecynnau gofal newydd i gynorthwyo gofalwyr teuluol di-dâl a all fod yn ei chael hi'n anodd, na sicrhau bod pobl mewn ysbyty'n cael eu rhyddhau'n gyflym, gan ychwanegu at y llwybr o'r ysbyty i'r cartref sydd eisoes yn orlawn. Cynghorwyd y Cabinet nad oedd yr awdurdod yn gallu comisiynu 560 o oriau gofal yr wythnos ar hyn o bryd.

Pwysleisiwyd yr angen i weithio ar sail ôl troed rhanbarthol a sicrhawyd y Cabinet y byddai comisiynwyr yn monitro'r defnydd o'r taliad i sicrhau ei fod yn cyrraedd staff rheng flaen ac i fonitro'r effaith.

Cydnabu'r Cabinet yr effaith yr oedd yr argyfwng costau byw'n ei chael ar bawb a chytunodd bod angen sicrhau cynaliadwyedd y sector.

Myfyriodd Aelodau ar y ffaith y byddai'r pwysau hyn hefyd yn wynebu staff gofal preswyl yr Awdurdod Lleol a cheisiwyd sicrwydd bod yr effaith ar weithwyr y Cyngor ei hun yn cael ei monitro. Cyfeiriwyd y Cabinet at adran 5.11 yr adroddiad, a gydnabu bod y pwysau hyn yr un

mor berthnasol i wasanaethau mewnol ac fe'u cynghorwyd y byddai hyn yn destun adroddiad ar wahân a fyddai'n cyflwyno opsiynau i'r Cabinet i'w hystyried.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1) Cytuno ar y cynnig rhanbarthol ar gyfer yr argyfwng staffio presennol ym marchnad gofal y sector annibynnol a bod y gyfradd bresennol fesul awr a gomisiynir i ddarparwyr yn cael ei gynyddu £1 yr awr o 1 Awst ymlaen, am chwe mis.

2) Cytuno ar ddefnyddio hyd at £215,000 o gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau cymdeithasol i ariannu'r £1 ychwanegol yr awr am chwe mis.

10. PRAWF BUDD Y CYHOEDD

Ystyriodd Aelodau Brawf Budd y Cyhoedd a daethant i'r casgliad fod budd cynnal yr eithriad i'r cyhoedd, ar y cyfan, yn gorbwyso budd datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd a: -

PHENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig iddyn nhw, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 a pharagraff 16 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11. TYNNU'N ÔL O DŶ PONTYGWINDY (UNED 7, DE CLARE COURT, YSTÂD DDIWYDIANNOL PONTYGWINDY)

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried yn eitem frys ac, felly, na fyddai'n cael ei alw i mewn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad yn adran 3.1 yr adroddiad am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.48pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 7 Medi 2022.

_____

CADEIRYDD